# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (211)

# Dydd Mercher, 21 Mehefin 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

Eitem 1 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Eitem 2 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Eitem 3 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006

Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006

Eitem 6 - Dadl ynghylch yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy

Eitem 7 - Dadl fer - Mick Bates (Sir Drefaldwyn): Archfarchnadoedd – Bendith neu Felltith? – wedi'i ohirio ers 24 Mai 2006

Eitem 8 - Dadl fer - Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Trefnu ar gyfer Trychineb – Ad-drefnu ysbytai yn y Canolbarth a'r Gorllewin

......................................

**Eitem 1 - Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

......................................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

......................................

**Eitem 3 - Cwestiynau i Bwyllgor y Ty**

......................................

**Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006**

**NDM3102 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y gorchymyn, Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006.

**NDM3103 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Mehefin 2006 ynghylch y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
**Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006**
**Yr Arfarniad Rheoliadol**

......................................

**Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006**

**NDM3104 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006.

**NDM3105 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mehefin 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mai 2006;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mehefin 2006; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2006.

**Dogfennau Ategol**
**Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006**
**Y Memorandwm Cywiriadau**

[**Yr Arfarniad Rheoliadol**]

......................................

**Eitem 6 - Dadl ynghylch yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy**

**NDM3106 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy 2006 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 14 Mehefin 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**
**Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:**

**(1+2+3)**

**(4)**

**(5+6+7+8+9)**

**Gwelliant 1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynnydd mewn gwastraff y pen yng Nghymru nad yw'n cael ei ailgylchu na'i gompostio.

**Gwelliant 2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn cyfarwyddo Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu strategaeth swyddi gwyrdd er mwyn gwneud rhagor i gynorthwyo a hyrwyddo busnesau a diwydiannau gwyrdd.

**Gwelliant 3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi dangosydd blynyddol yn yr adroddiad datblygu cynaliadwy sy'n mesur yn glir y twf economaidd o'i gymharu â'r carbon deuocsid a ryddheir.

**Gwelliant 4. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynnydd o ran y $CO_2$ a ryddheir yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ailddrafftio canllawiau cynllunio i gynyddu amrywiaeth y cyflenwad ynni adnewyddadwy.

**Gwelliant 5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio methiant parhaus Llywodraeth y Cynulliad i ddangos yn glir yn yr Adroddiadau Blynyddol ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy sut y mae Cymru'n llwyddo i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy.

**Gwelliant 6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r methiant i gysylltu Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy gydag adroddiadau blynyddol y Prif Weinidog fel ag a nodir yng Nghynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-07.

Gellir gweld copi o Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-07 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen isod: http://www.cymru.gov.uk/themessustainabledev/content/action-plan-w.pdf

**Gwelliant 7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod amcanion datblygu cynaliadwy Cymru’n cael eu llesteirio am nad oes ganddi bwerau o hyd dros reoliadau adeiladu ac yn galw am ddatganoli’r pwerau hyn.

**Gwelliant 8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch y cynnydd yn y $CO_2$ a ryddheir o ffynonellau yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu targedau flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer gostwng y carbon a ryddheir.

**Gwelliant 9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r ffaith mai dyma adroddiad blynyddol olaf tymor y Cynulliad ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac yn edrych ymlaen at gael asesiadau annibynnol yn y dyfodol o record Llywodraeth y Cynulliad o ran cyflawni ei hamcanion datblygu cynaliadwy.

**Dogfennau Ategol**
**Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2006**

......................................

**Eitem 7 - Dadl fer -**

Mick Bates (Sir Drefaldwyn): Archfarchnadoedd – Bendith neu Felltith? – wedi'i ohirio ers 24 Mai 2006

......................................

**Eitem 8 - Dadl fer -**

NDM3107 Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Trefnu ar gyfer Trychineb – Ad-drefnu ysbytai yn y Canolbarth a’r Gorllewin

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 27 Mehefin 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**